# Cardiff Council Update: 13th July

In today's update from Cardiff Council: new guidance to support September schools return; cars with trailers accepted at Bessemer Close from today, Monday 13th July; Cardiff Castle wins leisure & tourism award; and a resident delivers ‘Thank You’ bookmarks to Lamby Way staff.

## New guidance to support September schools return

The Welsh Government has today published updated guidance to support schools prior to the return of all pupils in September.

Last Thursday, the Education Minister, Kirsty Williams, announced that all learners would be able to return to schools in the autumn.

The guidance will supports schools, local authorities and settings to implement full operations in the autumn, including new guidance on contact groups.

The Welsh Government will make £29 million available to ‘recruit, recover and raise standards’, in response to the pandemic.

Kirsty Williams, the Minister for Education, said: “This updated guidance reflects the latest medical and scientific advice, striking a balance between structured national guidance and local flexibility.

“We have learned this year that we must be prepared for a range of scenarios. This guidance sets out what learning priorities should remain constant, regardless of where learning takes place.

“It will support our schools and education settings in ensuring learners continue to access a broad and balanced curriculum and continue to make progress in their learning.

“I would like to thank our local authorities and the trade unions for their input into this guidance, and of course our school staff for their dedication, professionalism and hard work over the last few months, which has set us in good stead for a full return in September.”

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry, said: "Many children and parents across Wales will welcome today's announcement from Welsh Government that all children should return to the classroom, full time from September.

"Over the last few months, an incredible amount of work has been undertaken by our schools to provide learning from home, facilitated by the local authority and our partners. But inevitably, being away from the classroom has meant that children and young people have been missing out. Returning to school is very important for their education, wellbeing and development, however, I know some families will be feeling anxious about this news.

"Ensuring that a full return is managed safely is a priority, and the health and safety of pupils and staff comes first. Cardiff Council will be following Welsh Government guidance and will be working closely with schools to overcome any challenges so that they can welcome pupils back to a safe learning environment next term."

Operational guidance for schools and settings from the autumn term: Keep Education Safe (COVID-19):
https://gov.wales/operational-guidance-schools-and-settings-autumn-term-covid-19

Guidance on learning in schools and settings from the autumn term: Keep Education Safe (COVID-19):
https://gov.wales/guidance-learning-schools-and-settings-autumn-term-covid-19

**Cars with trailers accepted at Bessemer Close from Monday 13th July**

From today, we're accepting cars with trailers at our Bessemer Close Recycling Centre.

See what vehicles you can bring to the centres here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/waste-service-changes/recycling-centres/Pages/default.aspx

The maximum accepted trailer size is 1.2m x 1.2m (4ft x4ft)

Cars with trailers will need to follow the booking process for vans and will be allowed 1 visit per month.

Please make sure to book at least 24 hours in advance:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/recycling-centres/visiting-a-recycling-centre/Pages/default.aspx

#KeepWalesSafe - always observe social distancing and wash your hands regularly.

**Cardiff Castle – winner of the Cardiff Life Leisure & Tourism Award 2020**

We've received the exciting news that Cardiff Castle has won the Leisure & Tourism award at the Cardiff Life Awards 2020!

Given the current situation, the Awards were very different this year with a unique, free, virtual ceremony for the whole city.

The Cardiff Life Awards are the business highlight of the city. They are the most prestigious, most tightly contested Awards with the greatest number of local companies involved. We feel honoured that the Castle has been chosen to represent this category.

One of the benefits of winning is coverage in Cardiff Life magazine, keep an eye out for the next editions which can be viewed online here:
http://www.mediaclash.co.uk/magazines/local-magazines/cardiff-life/

Comments from Cardiff Life:
"Cardiff Castle has stepped up to the mark this year. It's playing it wondrous space with great ingenuity, attracting 300,000 annual visitors while deftly promoting Cardiff's culture."

Keep up to date here:
www.cardiffcastle.com
www.twitter.com/Cardiff_Castle
www.facebook.com/officialcardiffcastle

### Resident delivers 'Thank You' bookmarks to Lamby Way

A caring resident has delivered handmade bookmarks to our colleagues at Lamby Way as a thank you for all their hard work.

Candy, from Pentwyn, gifted the bookmarks to our waste teams, with a message of thanks to people at this time, including our refuse workers.

Thank you for your act of kindness.

## Diweddariad Cyngor Caerdydd: 13 Gorffennaf

Yn y diweddariad ar a gafwyd heddiw gan Gyngor Caerdydd: canllawiau newydd i gefnogi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi; derbyn ceir gydag ôl-gerbydau yn Bessemer Close o ddydd Llun 13 Gorffennaf; Castell Caerdydd enillydd gwobr hamdden a thwristiaeth; a preswylydd yn rhoi nodau llyfrau 'Diolch' i Ffordd Lamby.

### Canllawiau newydd i gefnogi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi

Heddiw, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig i gefnogi ysgolion, cyn i'r holl ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi.

Ddydd Iau diwethaf, roedd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, wedi cyhoeddi y gallai'r holl ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol yn yr hydref.

Bydd y canllawiau hyn yn helpu ysgolion, awdurdodau lleol a lleoliadau i weithredu'n llawn yn yr hydref – ac mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys arweiniad newydd ar grwpiau cyswllt.

Bydd £29 miliwn ar gael gan Lywodraeth Cymru i 'recriwtio, adfer a chodi safonau', mewn ymateb i'r pandemig.

Dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg: “Mae’r canllawiau diwygiedig hyn yn adlewyrchu’r cyngor meddygol a gwyddonol diweddaraf. Ac mae’r cyngor yn cynnig llwybr canol rhwng canllawiau cenedlaethol strwythuredig a hyblygrwydd lleol.

“Eleni, rydyn ni wedi dysgu bod yn rhaid inni fod yn barod ar gyfer amrywiaeth o senarios. Mae’r canllawiau hyn yn nodi pa flaenoriaethau dysgu a ddylai barhau i fod yn gyson, ni waeth ble mae’r dysgu’n cael ei gynnal.

“Bydd hynny’n helpu ein hysgolion a’n lleoliadau addysg i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i elwa ar gwricwlwm eang a chytbwys a’u bod yn parhau i wneud cynnydd wrth ddysgu.

“Hoffwn ddiolch i’n hawdurdodau lleol a’r undebau llafur am eu cyfraniad at y canllawiau hyn. Ac wrth gwrs, diolch o galon i staff ein hysgolion am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a’u gwaith caled dros y misoedd diwethaf, sydd wedi sicrhau ein bod ni’n barod i bawb ddychwelyd ym mis Medi.”

Dywedodd y Cynghorydd Sarah Merry, yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau: "Bydd nifer o blant a rhieni ledled Cymru yn croesawu cyhoeddiad heddiw gan Llywodraeth Cymru y bydd yr holl blant yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, yn llawn amser o fis Medi.

"Dros y misoedd diwethaf, mae llawer o waith wedi'i wneud gan ein hysgolion i gynnig dysgu o gartref, wedi'i hwyluso gan yr awdurdod lleol a'n partneriaid. Ond yn anochel felly, mae bod i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth wedi golygu bod plant a phobl ifanc wedi bod ar eu colled. Mae dychwelyd i'r ysgol yn bwysig iawn ar gyfer eu haddysg, lles a datblygiad, ond, gwn fod rhai teuluoedd yn teimlo'n bryderus am y newyddion yma.

"Mae sicrhau bod y broses dychwelyd yn llawn yn cael ei rheoli'n ddiogel a iechyd a diogelwch disgyblion a staff yn flaenoriaeth. Bydd Cyngor Caerdydd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio'n agos ag ysgolion i oresgyn unrhyw heriau fel y gallant groesawu disgyblion yn ôl i amgylchedd dysgu diogel y tymor nesaf."

Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref: Diogelu Addysg (COVID-19):
https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19

Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref: Diogelu Addysg (COVID-19):
https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19

**Derbyn ceir gydag ôl-gerbydau yn Bessemer Close o ddydd Llun 13 Gorffennaf**

O heddiw ymlaen rydyn ni'n derbyn ceir gydag ôl-gerbydau yn ein Canolfan Ailgylchu yn Bessemer Close.

Gallwch weld pa gerbydau a gaiff fynediad i’r canolfannau yma: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/canolfannau-ailgylchu/ymweld-a-chanolfan-ailgylchu/Pages/default.aspx

Uchafswm maint yr ôl-gerbydau a dderbynnir yw 1.2m x 1.2m (4tr x4tr)

Bydd angen i geir ag ôl-gerbydau ddilyn y broses drefnu ar gyfer faniau a byddant yn cael 1 ymweliad bob mis.

Trefnwch le o leiaf 24 awr ymlaen llaw: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/canolfannau-ailgylchu/ymweld-a-chanolfan-ailgylchu/Pages/default.aspx

#CadwCymrunDdiogel - cadwch bellter cymdeithasol a golchwch eich dwylo’n rheolaidd

**Castell Caerdydd – enillydd Gwobr Hamdden a Thwristiaeth Cardiff Life 2020**

Ddydd Iau cawsom y newyddion cyffrous bod Castell Caerdydd wedi ennill y Wobr Hamdden a Thwristiaeth yng Ngwobrau Cardiff Life 2020! O ystyried y sefyllfa bresennol, roedd y Gwobrau yn wahanol iawn eleni gyda seremoni rithwir unigryw, am ddim, ar gyfer y ddinas gyfan!

Gwobrau Cardiff Live yw uchafbwynt busnes y ddinas. Dyma’r gwobrau uchaf eu bri yn y ddinas, ac mae’r gystadleuaeth drostyn nhw’n ffyrnig bob blwyddyn, gyda mwy o gwmnïau lleol yn rhan ohonyn nhw nag mewn unrhyw gynllun tebyg. Mae'n anrhydedd i ni fod y Castell wedi'i ddewis i gynrychioli'r categori hwn.

Un o fanteision ennill yw cael ein cynnwys yng nghylchgrawn Cardiff Life. Bydd y rhifynnau nesaf ar gael yma:
http://www.mediaclash.co.uk/magazines/local-magazines/cardiff-life/

Sylwadau gan Cardiff Life:
"Mae Castell Caerdydd wedi mwy nag ateb y galw eleni. Mae’n gwneud yn fawr o’r hyn sydd ganddo i’w gynnig, a hynny gyda dyfeisgarwch mawr, gan ddenu 300,000 o ymwelwyr bob blwyddyn a hyrwyddo diwylliant Caerdydd yn wych."

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ddilyn:
www.castell-caerdydd.com
www.twitter.com/CastellCaerdydd
www.facebook.com/officialcardiffcastle

**Preswylydd yn rhoi nodau llyfrau ‘Diolch’ i Ffordd Lamby**

Mae preswylydd caredig wedi dosbarthu nodau llyfrau a wnaed â llaw i’n cydweithwyr yn Ffordd Lamby i ddiolch iddynt am eu gwaith caled.

Rhoddodd Candy, o Bentwyn, y nodau llyfrau i'n timau gwastraff, gyda neges yn diolch i bobl ar yr adeg hon gan gynnwys y gweithwyr gwastraff.

Diolch am eich caredigrwydd.